Newyddion gan Ddiogelwch Ffyrdd Cymru

"Beth sy'n digwydd ym myd diogelwch ar y ffyrdd?" Ionawr 2007 — Rhifyn 3

Yn y Rhifyn Hwn:

• Her cerddoriaeth Gwent • Cystadleuaeth llunio poster • Blwch du i ostwng yswiriant car
• ESC • Bygythiad lorïau tramor • Jiwbilî diemwnt BHS • Aelodaeth CTC
• Strategaeth gorfodi diogelwch ar feiciau modur • Adalw ceir i gywiro'u diogelwch
• Gyrru fel gwaith • Storïau am ddiogelwch ar y ffyrdd
• Trwydded yrru pan-Ewropeaidd newydd • Gyrwyr Ifanc: Y Ffordd i Ddiogelwch

Her cerddoriaeth Gwent

Bu deg Ysgol Gyfun o bob rhan o Went yn cystadlu yn rownd derfynol Her Cerddoriaeth Gwent ar 21 Tachwedd yn Theatr Gymunedol Abertyleri.

Ffurfiodd pob ysgol fand a chyfansoddi caneuon ac iddynt thema Wrth-Yfed-a-Gyrru. Ymwelodd Helen Davidson, Rheolwraig Prosiect Diogelwch y Ffyrdd yn Capita Symonds, â'r ysgolion yn gyson i gadw golwg ar eu cynnydd. "Roedd y disgyblion yn llawn cyffro, cymhelliant ac ymrwymiad i'r achos! Daeth hynny i gyd ynghyd yn y perfformiad terfynol." Enillwyr yr Her Cerddoriaeth oedd Safety Queen o Ysgol Gyfun Tredegar. Cliciwch ar y cyswllt i weld y tri band gorau: http://www.youtube.com/watch?v=jIy-XZPkelY

Cystadleuaeth llunio poster

Bydd ymgyrchoedd gwrth-yfed-a-gyrru, a phrosesau gorfodi, yn rhedeg ar hyd y flwyddyn mewn ymdrech barhaus i sicrhau bod yfed a gyrru yn annerbyniol. Trefnir cystadleuaeth i ysgolion lunio posteri yfed-a-gyrru i gefnogi'r neges yn ystod cyfnod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd.

Bu miloedd o blant yn cystadlu, a chafwyd 16 o enillwyr rhanbarthol a ddaeth i seremoni gyflwyno ym mis Rhagfyr adeg Lansiad Nadolig yr ymgyrch yn erbyn Yfed-a-Gyrru. Dewiswyd poster gan Josh Park o Ysgol Uwchradd y Dyffryn yng Nghasnewydd, i'w ddosbarthu ledled Cymru. Cyflwynwyd y wobr i Josh gan Tamsin Dunwoody, y Dirprwy Weinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau.

Blwch du i ostwng yswiriant car

Mewn cynllun mawr i gydweithio â'r Royal & SunAlliance, mae Protectagroup wedi lansio polisi i yrwyr ifanc i helpu i gwtogi'n fawr ar nifer y damweiniau a sicrhau ewyllys da y genhedlaeth nesaf o yrwyr yr un pryd.

Enw'r brand yw "i-kube" a chaiff ei anelu at yrwyr 17-25 oed yng Nghymru a gaiff ddisgownt o 40% ar eu premiwm yswiriant ar yr amod na fyddant yn gyrru rhwng 11pm a 5am – yr adeg pryd mae'r siawns fwyaf y cânt ddamwain ar y ffordd ar ei huchaf.

Bydd y ddyfais GPS a osodir yng nghar y gyrrwr ifanc yn monitro'r defnydd o'r car. Os bydd yn canfod symudiad yn ystod yr oriau pan na ddylai'r car fod yn symud, codir ffi ychwanegol o £45.
Meddai sefydlydd Protectagroup, Paul Ragan, "Mae i-kube yn ffordd arloesol o helpu i ostwng nifer y damweiniau a'r marwolaethau sy'n digwydd ar ffyrdd Cymru bob blwyddyn ac yn fodd i yrwyr ifanc gael premiwm yswiriant sydd heb fod yn rhy ddrud. Gan nad yw pob gyrrwr ifanc yn gyrru'n wyllt, mae i-kube yn cynnig ffordd o wobrwyo'r rhai sydd ag agwedd ddiogel a synhwyrol at yrru drwy gynnig premiwm rhatach iddyn nhw."

www.protectagroup.co.uk

ESC (Rheoli Sefydlogrwydd yn Electronig)

Mynnwch gael ESC gallai arbed eich bywyd!

- Gall ESC eich helpu i rwystro colli rheolaeth dros eich car wrth yrru'n gyflym neu ar ffyrdd llithrig
- Gall ESC gwtogi hyd at 40% ar y risg y cewch chi'ch hun mewn damwain a fydd yn peryglu'ch bywyd
- Mae ESC wedi'i osod fel offer safonol ar lai na 40% o'r ceir newydd sydd ar werth ym Mhrydain heddiw
- Bydd llawer o weithgynhyrchwyr yn cynnig ESC fel dewis ond mewn llawer achos bydd llai nag 1% o'r cwsmeriaid yn ei archebu
- Cost gosod ESC fel dewis, ar gyfartaledd, yw rhyw £400

Beth mae ESC yn ei wneud?

Bydd ESC yn rheoli'r cerbyd yn awtomatig drwy gymharu gweithredoedd y gyrrwr wrth lywio a brecio â'r hyn sy'n digwydd mewn gwirionedd. Os bydd yr ESC yn synhwyro bod y cerbyd yn gwyro oddi ar y llwybr cywir – yn llithro – bydd yn rhoi breciau detholiad o'r olwynion ar waith i ddod â'r car yn ôl i'r llwybr cywir.

I gael gwybod pa geir sydd ag ESC fel offer safonol neu fel dewis, cliciwch ar:

http://www.thatcham.org/esc/index.jsp?page=241

Lorïau tramor 'yn bygwth bywydau'

Mae gyrwyr lorïau tramor yn rhoi bywydau mewn perygl drwy orweithio, defnyddio cerbydau â diffygion difrifol a gorlwytho'u lorïau, yn ôl un o benaethiaid yr heddlu. Dywedodd llefarydd Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu, y Prif Arolygydd Geraint Anwyl, fod ehangu'r Undeb Ewropeaidd wedi dwysáu'r sefyllfa. Doedd y cosbau a gâi'r cwmnïau cludiant sy'n tramgwyddo ddim yn ddigon llym oherwydd bod elw aruthrol i'w gael, meddai**.**

Ym Mhrydain caiff rhyw 400 o bobl eu lladd bob blwyddyn mewn damweiniau sy'n cynnwys lorïau. Ar ddiwrnod arferol, yn ôl yr Adran Drafnidiaeth, bydd 12,000 o lorïau tramor a 95,000 o lorïau Prydeinig ar ffyrdd y wlad.
Dywedodd yr heddlu a'r Asiantaeth Gwasanaethau Cerbydau a Gweithredwyr (VOSA), sy'n gwirio bod lorïau'n ddiogel, fod problemau difrifol yn codi yn achos gyrwyr a lorïau o Brydain a gwledydd tramor, ond bod y rhai o dramor, o ran yr ystadegau, yn fwy peryglus.

Treuliodd rhaglen ***Real Story*** BBC One ddiwrnod gyda'r heddlu yn Dover, lle daw'r mwyafrif o lorïau tramor i Brydain o Ewrop, a diwrnod yng Nghaergybi, un o'r prif bwyntiau ymadael, gydag arolygwyr o VOSA. Gwelwyd bod dros draean y cerbydau – 77 o'r 206 a dynnwyd o'r neilltu – wedi'u cymryd oddi ar y ffordd am nad oeddent yn ddiogel. Er i'r arolygwyr, meddai Dell Evans, un o Uwch Reolwyr VOSA, gael rhagor o arian gan y llywodraeth i daclo'r broblem, maent yn dal i golli'r frwydr. Meddai llefarydd o'r Adran Drafnidiaeth: "Rydyn ni'n benderfynol o daclo'r lorïau sy'n dewis herio cyfraith Prydain. Bob dydd, bydd swyddogion VOSA yn tynnu cerbydau anniogel oddi ar ein ffyrdd, a phan ddaw'r Mesur Diogelwch ar y Ffyrdd yn gyfraith gwlad, fe gân nhw bwerau i gasglu cosbau oddi wrth yrwyr o'r tu allan i Brydain ar fin y ffordd."
http://news.bbc.co.uk/1/hi/programmes/real_story/6081596.stm

Nifer aelodau'r CTC yn uwch nag ers 1899

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae dros 10,000 o bobl wedi ymuno â chymdeithas genedlaethol beicwyr Prydain, y CTC, gan godi nifer ei haelodau i 55,516 - yr uchaf ers 1899. Wrth groesawu'r ffaith i'r CTC gael blwyddyn arbennig o lwyddiannus, dywedodd Matt Mallinder, Rheolwr Datblygu Aelodaeth CTC, fod "pobl yn ymuno â'r CTC lawn cymaint oherwydd ein hymgyrchu ar lawr gwlad â'n lobïo mawr ar y llywodraeth ag am yr amrywiaeth o fanteision rhagorol a gaiff ein haelodau. Y newyddion gwirioneddol dda yw po fwyaf o bobl sy'n ymuno â ni, mwya'n y byd fydd grym ein hymgyrchu." www.ctc.org.uk

Jiwbilî Diemwnt

2007 yw Blwyddyn Jiwbilî Diemwnt Cymdeithas Geffylau Prydain. Ym 1947 unodd Sefydliad y Ceffyl â'r Gymdeithas Geffylau Genedlaethol i ffurfio Cymdeithas Geffylau Prydain.

Yn ystod y trigain mlynedd ers hynny, mae Cymdeithas Geffylau Prydain (y BHS) wedi sicrhau llu o lwyddiannau nodedig ac wedi magu enw da mewn meysydd fel hyfforddiant ac addysg, lles ceffylau a mynediad ledled y byd. Gan fod hynny'n werth ei ddathlu, hoffai'r BHS i bob aelod – a'r rhai sy'n dymuno'n dda i'r Gymdeithas – ymuno â hwy mewn blwyddyn o ddigwyddiadau arbennig. Cewch ragor o'r manylion yn:

http://www.bhs.org.uk/Content/Ods-More.asp?id=6578&pg=Information&spg=Home&area=9

Strategaeth gorfodi diogelwch ar feiciau modur

Ymdrech i sicrhau cysondeb yw Strategaeth Gorfodi Diogelwch ar Feiciau Modur yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon gan Gymdeithas y Prif Swyddogion Heddlu (ACPO). Mae iddi ddau brif amcan:

- Gostwng nifer y bobl sy'n cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol oherwydd gwrthdrawiadau beiciau modur.
- Cwtogi ar ymddygiad gwrthgymdeithasol lleiafrif bach ac anghyfrifol o feicwyr modur sy'n amharu'n anghymesur ar ansawdd bywyd mewn rhai cymunedau.

I hybu cydymffurfio â hi, mae'r strategaeth yn argymell y dylid rhoi pwys ar addysg, anogaeth a chyngor gan ddatgan yn glir y bwriad i ddelio â throseddwyr difrifol neu gyson.

Gallwch weld y strategaeth lawn yn:

http://www.acpo.police.uk/asp/policies/Data/motorcycle_enforcement_strategy_website_22x06x06.doc

Adalw cerbydau i sicrhau eu diogelwch

Yr Asiantaeth Gwasanaethau Cerbydau a Gweithredwyr (VOSA) sy'n gyfrifol am arolygu Cynllun Adalw Prydain i Ddiogelu Cerbydau. Gan weithio ochr yn ochr â'r gweithgynhyrchwyr, bydd VOSA yn sicrhau y gwneir pob ymdrech i olrhain perchnogion pob model yr effeithir arno rhag i gerbyd a allai fod yn ddiffygiol achosi risg, nid yn unig i ddiogelwch y gyrrwr a'r teithwyr ond hefyd i ddefnyddwyr eraill y ffyrdd.

Yn 2005, cofrestrodd VOSA 228 o ymgyrchoedd adalw a effeithiai ar 1.9 miliwn o gerbydau. Y gyfradd ymateb ar hyn o bryd yw 91.47%, ond mae VOSA, ynghyd â chynhyrchwyr y cerbydau, yn dal i fod yn awyddus i ragori ar y ffigur hwnnw.

Erbyn hyn, gall modurwyr chwilio'r gronfa ddata ddiweddaraf i weld pa fathau a modelau sydd wedi'u hadalw, gan fynd yn ôl mor bell â 1992, drwy bwyso botwm.

Mae'r gronfa ddata am adalw cerbydau i'w gweld yn:

www.vosa.gov.uk/vosa/apps/recalls/default.asp

Gyrru fel gwaith

Mae RoSPA wedi cyhoeddi canllawiau newydd i gyflogwyr i sicrhau y caiff technoleg yng ngherbydau eu cwmnïau ei defnyddio i wella diogelwch ac nid i roi gyrwyr mewn perygl.

Mae Driving for Work: Vehicle Technology yn ymdrin â phethau fel systemau llywio â lloeren, dyfeisiau rhybuddio ynghylch cyflymdra, offer cadw cyflymdra cyson, systemau sy'n rhoi gwybodaeth am fannau sydd o'r golwg, systemau brecio a sefydlogrwydd electronig, a blychau du.

Cliciwch ar y cyswllt isod i lwytho'r ddogfen i lawr:

Driving for Work: Vehicle Technology

Storïau am Ddiogelwch ar y Ffyrdd

Er mai Diogelwch ar y Ffyrdd yw un o'r gwersi pwysicaf y byddwn ni'n eu rhoi i'n plant, gall fod yn anodd dal sylw plant a rhoi'r negeseuon iddynt. Mae Texaco wedi creu 5 llyfr o storïau i helpu rhieni drwy gynnig ffordd hwyliog a chreadigol iddynt fynd ati gartref i ddysgu negeseuon allweddol am ddiogelwch ar y ffordd. Naw oed yw Hector, y prif gymeriad. Mae ef â'i drwyn ym mhopeth ac mae ganddo ddychymyg arbennig o ryfedd. Ym mhob llyfr caiff antur anhygoel sy'n ei atgoffa o reol ynghylch diogelwch ar y ffyrdd. Anelir y llyfrau at blant 6-10 oed.

Gallwch eu cael yn rhad ac am ddim o unrhyw orsaf Texaco neu eu llwytho i lawr o www.hectorsroom.com

Trwydded yrru pan-Ewropeaidd newydd

Bwriedir i drwydded yrru pan-Ewropeaidd, sydd o faint cerdyn credyd, ddisodli'r 110 a rhagor o wahanol drwyddedau sy'n cael eu defnyddio ledled yr Undeb Ewropeaidd ar hyn o bryd.

Gan fod y Gyfarwyddeb i ddod i rym erbyn diwedd 2006, a bydd hi'n gymwys erbyn diwedd 2012 fan bellaf. Caiff yr aelod-wladwriaethau hyd at 26 mlynedd i ddisodli'r trwyddedau gyrru presennol.

Mae'r rheolau newydd yn rhag-weld y bydd trwyddedau beiciau modur a cheir yn ddilys am 10 mlynedd, a gall yr aelod-wladwriaethau godi hynny i 15 mlynedd. Bydd yn rhaid i yrwyr bysiau a lorïau adnewyddu eu trwyddedau bob pum mlynedd yn hytrach na phob 10 mlynedd, ac yn gorfod datgan eu bod yn dda'u hiechyd. Dywed y Comisiynydd Trafnidiaeth, Jacques Barrot, fod "y drwydded yrru Ewropeaidd o'r pwys pennaf i ddiogelwch ar y ffyrdd ac i'r frwydr yn erbyn twyll. Bydd yn sicrhau bod teithio o amgylch Ewrop yn haws ac na fydd anawsterau biwrocrataidd yn codi. Bydd gan bob gyrrwr drwydded glir a modern a gaiff ei derbyn ym mhob aelod-wladwriaeth."

Dywed yr Undeb Ewropeaidd y bydd y drwydded yrru newydd yn sicrhau gwell diogelwch ar y ffordd drwy gynnig gwell diffiniadau o'r hyn y mae cymhwyso'r gwahanol gategorïau o drwydded yrru yn ei gwmpasu. Bydd hefyd, medd yr Undeb, yn rhwystro "twristiaeth trwyddedau", lle bydd gyrrwr sy'n colli ei drwydded mewn un wlad yn gwneud cais am drwydded mewn gwlad arall ac yna'n ei defnyddio yn ei wlad ei hun.

http://europa.eu.int/rapid/pressReleasesAction.do?reference=MEMO/06/143&format=HTML&aged=0&language=EN&guiLanguage=fr

Gyrwyr Ifanc: Y Ffordd i Ddiogelwch

Yn ôl adroddiad newydd, dylai pobl ifanc dreulio rhagor o amser yn ymarfer eu sgiliau gyrru cyn cael trwydded a dylai llywodraethau gyflwyno cyfnodau prawf a gosod terfynau is ar yfed-a-gyrru i yrwyr newydd fel rhan o strategaeth i ostwng y nifer o bobl a gaiff eu lladd ar y ffyrdd.

Dywed **Young Drivers: The Road to Safety**, a gyhoeddwyd gan y Gymdeithas Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (yr OECD) a Chynhadledd Gweinidogion Trafnidiaeth Ewrop (yr ECMT), mai gwrthdrawiadau ar y ffyrdd sy'n lladd y nifer fwyaf o'r rhai 15-24 oed mewn gwledydd diwydiannol.

Er mai rhyw ddegfed ran o boblogaeth gwledydd yr OECD yw pobl sydd o oedran gyrru ond sy'n dal i fod o dan 25 oed, maent yn cyfrif am fwy na chwarter y gyrwyr sy'n cael eu lladd ar y ffyrdd. Ac mae astudiaethau yn yr Unol Daleithiau a'r Iseldiroedd yn dangos bod 13 o deithwyr a defnyddwyr eraill y ffyrdd hefyd yn marw yn yr un damweiniau am bob 10 o yrwyr ifanc sy'n cael eu lladd yn y ddwy wlad hynny.

Dynion ifanc sydd ymysg y gyrwyr peryclaf am eu bod deirgwaith yn fwy tebyg o gael eu lladd mewn damwain car na menywod ifanc sy'n gyrru.

Felly, beth y dylai llywodraethau ei wneud i sicrhau bod gyrwyr ifanc yn fwy diogel? Dyma rai o argymhellion yr adroddiad:

- Gorfodi gyrwyr ifanc i dreulio amser yn gyrru gyda gyrrwr profiadol yn ogystal â chymryd gwersi gyrru cyn cymryd y prawf. Pan ostyngodd Sweden isafswm yr oedran i ymarfer gyrru gyda gyrrwr profiadol o 17½ i 16 ym 1993, cododd nifer yr oriau o ymarfer gyrru cyn cael trwydded o ryw 45, ar gyfartaledd, i 120 o oriau, a gwelwyd gostyngiad o 40% cyn pen dwy flynedd yn nifer y damweiniau a oedd yn cynnwys gyrwyr ifanc newydd.
- Pennu uchafswm o gynnwys alcohol yn y gwaed o 0.2 g/l i yrwyr ifanc gan fod tystiolaeth bod gyrwyr ifanc yn fwy agored i effeithiau alcohol na gyrwyr hŷn. Mae hynny'n llai na hanner y terfyn o 0.5 g/l o alcohol yn y gwaed a argymhellwyd gan yr ECMT ac a gymhwysir ar draws y rhan fwyaf o Ewrop.
- Pennu cyfnodau prawf i yrwyr ifanc. Yn ystod y cyfnodau prawf gallant golli eu trwydded a/neu orfod cael rhagor o hyfforddiant os torrant reolau'r ffordd. Os defnyddir system bwyntiau i gosbi gyrwyr, dylid pennu trothwy is ar gyfer amddifadu gyrwyr newydd o'u trwydded.
- Gorfodi rheolau'r ffordd yn drylwyr yn achos pob gyrrwr, gan ganolbwyntio'n arbennig ar y troseddau a gyflawnir yn gyffredin gan yrwyr ifanc, megis peidio â gwisgo gwregys diogelwch, gyrru dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau a thorri'r terfyn ar gyflymdra.
- Anelu'r hyfforddiant yn fwy at greu gyrwyr diogel, ac yn llai at helpu pobl i basio'u prawf gyrru. Ymchwilio i botensial technolegau newydd, gan gynnwys blychau du ac allweddi smart, i gwtogi ar yrru peryglus.

I gael crynodeb o ddarganfyddion allweddol cyd-adroddiad yr OECD/Canolfan Ymchwil Trafnidiaeth yr ECMT, ***Young Drivers: The Road to Safety***, cliciwch ar y cyswllt hwn:
http://www.cemt.org/JTRC/WorkingGroups/YoungDrivers/index.htm

Mae Pwyllgor Trafnidiaeth Tŷ'r Cyffredin yn bwriadu ymchwilio i yrwyr newydd a chynnal sesiynau o glywed tystiolaeth lafar yn gynnar yn 2007. Gellir gweld cwmpas yr ymchwiliad yn:

http://www.parliament.uk/parliamentary_committees/transport_committee/trans05_06_press_notice81.cfm

Cysylltwch â'r Golygydd

Golygydd: Steve Baker, RoSPA
sbaker@rospa.com

02920 250 600